# Datganiad Polisi ar Ddiogelu

**Ein Hymrwymiad i Ddiogelu**
Yn unol â'n gwerthoedd, mae Plant yng Nghymru wedi ymrwymo i ddiogelu pob plentyn. Rydyn ni'n cydnabod ein cyfrifoldeb i ddiogelu lles babanod, plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl o niwed, ac rydyn ni wedi ymrwymo i greu a chynnal yr amgylchedd mwyaf diogel posib.

- Mae gennym **Bolisi Diogelu**.
  *Mae'r polisi hwn yn dangos ein dyletswydd gofal tuag at bob baban, plentyn, person ifanc, ac oedolyn y byddwn yn gweithio gyda nhw, a'n cyfrifoldeb i'w diogelu rhag niwed. Cred Plant yng Nghymru fod gan bawb hawl i'r amddiffyniad hwn. Adolygir ein Polisi bob blwyddyn, gydag adolygiad llawn bob tair blynedd. Rydyn ni'n cynnal Archwiliad Diogelu bob dwy flynedd.*

- Mae gennym **Gôd Ymddygiad** ar gyfer gweithio gyda phlant.
  *Mae ein holl staff wedi ymrwymo i'r côd hwn ac mae unrhyw staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda babanod, plant neu bobl ifanc yn destun gwiriad DBS rheolaidd. Mae pob staff yn derbyn hyfforddiant Diogelu rheolaidd ar y lefel briodol, yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.*

- Mae gennym dri **Pherson Diogelu Dynodedig** sydd wedi'u hyfforddi'n llawn.
  *Mae modd cysylltu â Pherson Diogelu Dynodedig (PDD) i drafod a oes angen codi pryder diogelu gyda'r awdurdod lleol, a'r person hwnnw fydd yn rheoli unrhyw gamau uniongyrchol y mae gofyn eu cymryd i sicrhau diogelwch neu les plentyn, person ifanc neu oedolyn sy'n wynebu risg.*

- Rydyn ni'n gweithio'n galed i sicrhau bod babanod, plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg yn ddiogel yn ein digwyddiadau.
  *Wrth gynllunio ar gyfer digwyddiadau, rydyn ni'n cynnal asesiad risg sy'n cael ei adolygu gan reolwyr a'i ddarllen gan yr holl staff sy'n bresennol yn y digwyddiad. Bydd yr asesiad yn parhau ar hyd y digwyddiad er mwyn ymateb i unrhyw heriau a allai godi a bydd ar waith nes bod yr holl blant a phobl ifanc yn dychwelyd adref. Byddwn ni bob amser yn sicrhau bod Person Diogelu Dynodedig ar gael ym mhob digwyddiad.*

- Mae ein **Hymddiriedolwyr** wedi ymrwymo'n llawn i ddiogelu.
  *Mae'r Ymddiriedolwyr yn trafod diogelu yn eu cyfarfodydd Bwrdd bob chwarter. Mae Ymddiriedolwyr yn aelodau o'n Grŵp Diogelu, sydd hefyd yn cyfarfod bob tri mis.*

**Cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth**
Mae Polisi Diogelu Plant yng Nghymru yn seiliedig ar ofynion deddfwriaethol, ar ganllawiau cenedlaethol, ac ar Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig. Mae'n ymwneud ag ystod o ddeddfwriaeth y Llywodraeth, yn cynnwys Deddf Plant 1989, Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, Deddf Diogelu Rhyddidau 2012, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a Deddf Diogelwch Ar-lein 2023.

Bydd Plant yng Nghymru yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: cyfrolau 5 a 6, yn ogystal ag unrhyw weithdrefnau lleol a gyhoeddir gan y Byrddau Diogelu Rhanbarthol (BDRh) yng Nghymru.

**Gwerthoedd**
Mae ein Gwerthoedd yn ddatganiad i'n Haelodau, i'n Gwirfoddolwyr Ifanc, i'n Cydweithwyr ac i'n Partneriaid:

**Rydym yn gweithredu ag Uniondeb**: Mae ein dull gweithredu yn seiliedig ar hawliau plant; Byddwn yn gweithio â gonestrwydd i wireddu ein cenhadaeth; Ni fyddwn yn ymatal rhag herio eraill ar ran y lleisiau rydyn ni'n ceisio eu chwyddo.

**Rydyn ni'n Gwrando**: Rydyn ni'n eich clywed; Mae'r hyn a ddywedwch yn bwysig i ni; Byddwn yn ymateb trwy weithredu, lle gallwn ni.

**Rydyn ni'n Parchu eraill**: Byddwn yn sicrhau ein bod yn gynhwysol, bod lle wrth ein bwrdd i'r lleisiau a glywir yn llai aml, a bod cyfle i bawb ddweud eu dweud.

**Rydyn ni'n Cydymdeimlo**: Byddwn yn cyfathrebu ag empathi; byddwn yn ceisio manteisio ar bob cyfle i gydweithio; a byddwn yn sicrhau ein bod yn ystyriol o brofiadau pobl eraill.